

Gareth Owens LL.B Barrister/Bargyfreithiwr
Chief Officer (Governance)
Prif Swyddog (Llywodraethu)



Swyddog Cyswllt:
Maureen Potter 01352 702322
maureen.potter@flintshire.gov.uk

At: Cyng Hilary McGuill (Cadeirydd)

Y Cyngorwyr: Mike Allport, Marion Bateman, Paul Cunningham, Jean Davies, Carol Ellis, Gladys Healey, Cindy Hinds, Mike Lowe, Dave Mackie, Michelle Perfect and David Wisinger

Dydd Gwener, 24 Medi 2021

Annwyl Gyngorydd,

RHYBUDD O GYFARFOD ANGHYSBELL
PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU GOFAL CYMDEITHASOL AC IECHYD
DYDD IAU, 30AIN MEDI, 2021 11.00 AM

Gofynir I Aelodau nodi amser dechrau'r cyfarfod.

Yn gywir

Robert Robins
Rheolwr Gwasanaethau Democraidd

Sylwch: Bydd hwn yn gyfarfod dros y we a bydd 'presenoldeb' wedi'i gyfyngu i Aelodau'r Pwyllgor a'r Aelodau hynny o'r Cyngor sydd wedi gofyn i Bennaeth y Gwasanaethau Democraidd am wahoddiad. Y Cadeirydd fydd yn penderfynu a yw'r rhain yn cael siarad ai peidio.

Bydd y cyfarfod yn cael ei ffrydio'n fyw ar wefan y Cyngor. Bydd recordiad o'r cyfarfod ar gael yn fuan ar ôl y cyfarfod ar <https://flintshire.publici.tv/core/portal/home>

Os oes gennych unrhyw ymholiadau, cysylltwch ag aelod o'r Tîm Gwasanaethau Democraidd ar 01352 702345.

R H A G L E N

1 YMDDIHEURIADAU

Pwrpas: I dderbyn unrhyw ymddiheuriadau.

2 DATGAN CYSYLLTIAD (GAN GYNNWYS DATGANIADAU CHWIPIO)

Pwrpas: I dderbyn unrhyw ddatganiad o gysylltiad a chynghori'r Aelodau yn unol a hynny.

3 COFNODION (Tudalennau 5 - 16)

I gadarnhau fel cofnod cywir gofnodion y Cyd-gyfarfod a gynhaliwyd gyda'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Addysg, Ieuenctid a Diwylliant ar 17 Mehefin 2021.

4 CYLLIDEB 2022/23 - CAM 2 (Tudalennau 17 - 24)

Adroddiad Prif Swyddog (Gwasanaethau Cymdeithasol) - Aelod Cabinet dros Gyllid, Gwerth Cymdeithasol a Chaffael

Bod y Pwyllgor yn adolygu ac yn rhoi sylwadau ar bwysau ariannol y Gwasanaeth Gofal Cymdeithasol ac lechyd a'r strategaeth gyllideb gyffredinol ac yn cynghori ar unrhyw feysydd effeithlonrwydd cost yr hoffai eu harchwilio ymhellach

Sylwch, efallai y bydd egwyl o 10 munud os yw'r cyfarfod yn para'n hirach na dwy awr.

Nodyn Gweithdrefnol ar redeg cyfarfodydd

Bydd y Cadeirydd yn agor y cyfarfodydd ac yn cyflwyno eu hunain.

Bydd nifer o Gynghorwyr yn mynychu cyfarfodydd. Bydd swyddogion hefyd yn mynychu cyfarfodydd i gyflwyno adroddiadau, gyda swyddogion Gwasanaethau Democrataidd yn trefnu a chynnal y cyfarfodydd.

Gofynnir i bawb sy'n mynychu i sicrhau bod eu ffonau symudol wedi diffodd a bod unrhyw sain gefndirol yn cael ei gadw mor dawel â phosib.

Dylai'r holl feicroffonau gael eu rhoi "ar miwt" yn ystod y cyfarfod a dim ond pan fyddwch yn cael eich gwahodd i siarad gan y Cadeirydd y dylid eu rhoi ymlaen. Pan fydd gwahoddedigion wedi gorffen siarad dylen nhw roi eu hunain yn ôl "ar miwt".

Er mwyn mynegi eu bod nhw eisiau siarad bydd Cynghorwyr yn defnyddio'r cyfleuster 'chat' neu yn defnyddio'r swyddogaeth 'raise hand' sy'n dangos eicon codi llaw electronig. Mae'r swyddogaeth 'chat' hefyd yn gallu cael ei ddefnyddio i ofyn cwestiynau, i wneud sylwadau perthnasol ac yn gyfle i'r swyddog gynghori neu ddiweddarau'r cynghorwyr.

Bydd y Cadeirydd yn galw ar y siaradwyr, gan gyfeirio at aelod etholedig fel 'Cynghorydd' a swyddogion yn ôl eu teitl swydd h.y. Prif Weithredwr neu enw. O bryd i'w gilydd mae'r swyddog sy'n cynghori'r Cadeirydd yn egluro pwyntiau gweithdrefnol neu'n awgrymu geiriad arall ar gyfer cynigion er mwyn cynorthwyo'r Pwyllgor.

Os, a phan y cynhelir pleidlais, mi fydd y Cadeirydd yn egluro mai dim ond y rheiny sy'n gwrthwynebu'r cynnig/cynigion, neu sy'n dymuno ymatal a fydd angen mynegi hynny drwy ddefnyddio'r swyddogaeth 'chat'. Bydd y swyddog sy'n cynghori'r Cadeirydd yn mynegi os bydd y cynigion yn cael eu derbyn.

Os oes angen pleidlais fwy ffurfiol, bydd hynny yn ôl galwad enwau – lle gofynnir i bob Cynghorydd yn ei dro (yn nhrefn yr wyddor) sut mae ef / hi yn dymuno pleidleisio.

Yng nghyfarfodydd Pwyllgorau Cynllunio a Chyngor Sir mae amseroedd siaradwyr yn gyfyngedig. Bydd cloch yn cael ei chanu i roi gwybod i'r siaradwyr bod ganddyn nhw funud ar ôl.

Bydd y cyfarfod yn cael ei ffrydio'n fyw ar wefan y Cyngor. Bydd recordiad o'r cyfarfod ar gael yn fuan ar ôl y cyfarfod ar <https://flintshire.publici.tv/core/portal/home>